

Dogfen ir Cyhoedd



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

GŴYS A RHAGLEN

SUMMONS AND AGENDA

ar gyfer

for a

**CYFARFOD O
GYNGOR SIR
YNYS MÔN**

**MEETING OF THE
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

a gynhelir yn

to be held at the

**SIAMBR Y CYNGOR
SWYDDFA'R SIR
LLANGEFNI**

**COUNCIL CHAMBER
COUNCIL OFFICES
LLANGEFNI**

**DYDD MAWRTH, 10 RHAGFYR
2019**

am 2.00 o'r gloch yp

**TUESDAY
10 DECEMBER 2019**

at 2.00 pm

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.

R H A G L E N

1. **COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 10 Medi 2019
- 7 Hydref 2019 (Arbennig)
- 22 Hydref 2019 (Arbennig)

2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

3. **DERBYN UNRHYW DDATGANIADAU GAN Y CADEIRYDD, YR ARWEINYDD, NEU'R PRIF WEITHREDWR**

4. **RHYBUDD O GYNIGIAD YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 Y CYFANSODDIAD**

Derbyn y Rhybudd o Gynigiad isod gan y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones:-

Yn y gorffennol, gorchuddiwyd Ynys Môn gan goed Derw ond erbyn heddiw mae'n un o'r ardaloedd lleiaf coediog yng Nghymru. Rhoddwyd caniatâd i Goedwig Penrhos yng Nghaergybi gael ei throï'n Barc Chwarae ar gyfer Cabannau Gwyliau.

Mae angen i ni fel Cyngor wrthdroi'r dirywiad yn ein coetiroedd a chymryd camau pendant i annog plannu mwy o goed ar Ynys Môn.

Rydw i'n gofyn am ymgyrch ledled yr ynys gyda phob ysgol a'u disgyblion yn cymryd rhan yn y gwaith plannu coed ac i'n Cyngor a'n cwmnïau lleol eu noddi.

5. **CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

6. **CYFANSODDIAD Y CYNGOR - PROSES GOSOD Y GYLLIDEB**

I ystyried penderfyniad Gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd.

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2019

YN BRESENNOL: Cyngorydd Margaret Murley Roberts (Cadeirydd)
Cyngorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, John Griffith, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, G O Jones, R LI Jones, R. Meirion Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE FRAGS, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Ieuan Williams a Robin Williams.

WRTH LAW: Prif Weithredwr,
Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,
Pennaeth Plant a Theuluoedd
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Pennaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid
Swyddog Pwyllgor (MEH).

**HEFYD YN
BRESENNOL:** Dim

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr Richard Griffiths, T LI Hughes MBE, Eric Wyn Jones, Richard Owain Jones, Bryan Owen, Shaun James Redmond a Dafydd Rhys Thomas.

Cyflwyniad Gemau'r Ynysoedd

Gwnaed cyflwyniad i unigolion a fu'n llwyddiannus yng Ngemau'r Ynysoedd yn Gibraltar, Tîm Pêl-droed Merched Ynys Môn a Thîm Pêl-droed Dynion Ynys Môn ynghyd ag unigolion a fu'n llwyddiannus yng Nghystadleuaeth Gymnasteg Gemau'r Ynysoedd a gynhaliwyd yn Ynys Manaw.

Nododd y Cadeirydd y cynhaliwyd Twrnaint Pêl-droed Gemau'r Ynysoedd yn Ynys Môn ym Mehefin a diolchodd i bawb ledled yr Ynys am y croeso a roddwyd i dimau o Ynysoedd eraill ac am y gwaith caled gan bawb dros nifer o fisoedd er mwyn paratoi ar gyfer y twrnaint.

1. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol fel rhai cywir:-

- 14 Mai, 2019 (Cyfarfod Arferol)
- 14 Mai, 2019 (Cyfarfod Blynyddol)
- 15 Gorffennaf, 2019 (Cyfarfod Arbennig)
- 22 Awst, 2019 (Cyfarfod Arbennig)

2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim.

3. I DDERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau canlynol:-

- Llongyfarchiadau i'r rhai hynny o Ynys Môn a fu'n llwyddiannus ym Mhrimin Môn, Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol;
- Llongyfarchiadau i Sian Morgan, Gweithiwr Cymorth gyda'r Cyngor sydd wedi derbyn gwobr 'Gofalu yn Gymraeg' a gyflwynwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst;
- Llongyfarchiadau i ddisgyblion Ysgolion Uwchradd yr Ynys ar eu llwyddiant yn yr arholiadau TGAU a Safon Uwch. Dymunwyd yn dda i'r disgyblion a fydd yn dechrau ar eu cyrsiau coleg cyn hir;
- Mynegwyd llongyfarchiadau i Samantha Goad, Llysgennad Ifanc Ynys Môn a Chwaraeon Cymru ar dderbyn Gwobr Goffa Diana a ddyfernir am gyflawniadau rhagorol gan bobl ifanc;
- Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Robert Ll Jones a ddathlodd ben-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Gofynnodd Aelodau i lythyr gael ei anfon at Mr Albert Owen AS yn diolch iddo am ei wasanaeth fel Aelod Seneddol dros Ynys Môn, ni fydd Mr Owen yn sefyll yn yr etholiad seneddol nesaf.

Cyhoeddodd y Cadeirydd y cynhelir Gwasanaeth Sul y Cadeirydd ar 13 Hydref, 2019 yng Nghapel Carmel, Moelfre.

Dymunwyd yn dda i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc newydd, Mr Rhys H Hughes.

* * * *

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith mai dyma gyfarfod olaf Dr Gwynne Jones o'r Cyngor Sir fel Prif Weithredwr a dymunwyd yn dda iddo ar ei ymddeoliad. Dywedodd fod Dr Gwynne Jones yn uchel iawn ei barch ymysg Aelodau Etholedig, Swyddogion y Cyngor, o fewn Llywodraeth Leol ledled Cymru a thu hwnt.

Dymunodd Arweinydd y Cyngor yn dda i Dr Gwynne Jones am y gwasanaeth a roddodd i'r Cyngor Sir a'i ymrwymiad i'r Awdurdod dros y 4 blynedd diwethaf fel Prif Weithredwr.

Diolchodd Aelodau'r Cyngor hefyd i Dr Gwynne Jones am ei wasanaeth i'r Cyngor a dymunwyd yn dda iddo ar ei ymddeoliad.

Dymunwyd yn dda i Mrs Annwen Morgan ar ei phenodiad fel Prif Weithredwr yn dilyn ymddeoliad Dr Gwynne Jones.

4. CYFLWYNO DEISEBAU

Nododd y Cadeirydd fod un ddeiseb ac arni 250 o lofnodion wedi'i chyflwyno gan drigolion pentref Llanfechell yn gwrthwynebu colli Swyddog Hebrwng Plant Ysgol – deiseb wedi'i hanfon ymlaen i'r Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

5. DATGANIAD CYFRIFON A SAFON ARCHWILIO RYNGWLADOL (ISA) 260

Cyflwynwyd – yr adroddiadau canlynol gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 3 Medi, 2019:-

- Datganiad Cyfrifon 2018/19;
- Adroddiad yr Archwilydd Allanol ar yr archwiliad o'r cyfrifon terfynol.

Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio am gadarnhad a yw cyfanswm y derbyniadau a gafodd y Cyngor yn sgil gwerthu adeiladau nad oedd gan y Cyngor ddefnydd iddynt bellach, wedi eu nodi ar wahân yn y Cyfrifon.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 drwy nodi bod y derbyniadau cyfalaf wedi eu nodi mewn nodyn penodol o fewn y Datganiad Cyfrifon (nodyn 10). Roedd y balans o dderbyniadau cyfalaf nad oeddynt wedi eu defnyddio fel ar 31 Mawrth 2019 yn £1.18m ac atgoffodd yr Aelodau na fedri ond defnyddio derbyniadau cyfalaf i greu ased sefydlog h.y. un sydd â bywyd defnyddiol o fwy na 12 mis, neu er mwyn lleihau lefel fenthyca'r Cyngor. Ni ellir defnyddio derbynebiadau cyfalaf er mwyn ariannu gwariant refeniw.

PENDERFYNWYD:-

- **Derbyn y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2018/19 a rhoi'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 lofnodi'r cyfrifon.**
- **Nodi bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi derbyn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2018/19 a chyfeirio'r ddogfen at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i'w llofnodi.**

6. PENODI PEDWAR AELOD ANNIBYNNOL I WASANAETHU AR Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan Gadeirydd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau.

PENDERFYNWYD:-

- Penodi Mr Thomas Rhys Davies, Mrs Celyn Menai Edwards, Mrs Gill Murgatroyd a Mrs Sharon Warnes fel aelodau annibynnol cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau o 20 Rhagfyr 2019 ymlaen; am hyd at ddau dymor, fel sy'n cael ei ganiatáu yn statudol ac yn y Cyfansoddiad;
- Petai swydd wag achlysurol bellach yn codi am aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn ystod y deuddeg mis nesaf, y dylid penodi Mrs Pauline Vella yn awtomatig i'r rôl hon heb yr angen am broses recriwtio bellach, ar yr amod bob amser fod Mrs Vella yn parhau i fod yn gymwys i ymgymryd â'r rôl.
- Cadarnhau bod y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas yn parhau i wasanaethu fel un o gynrychiolwyr y Cynghorwyr Sir tan yr etholiad nesaf yn 2022;
- Penodi'r Cynghorydd John Arwel Roberts i wasanaethu fel Cynrychiolydd Cynghorwyr ar y Pwyllgor Safonau, hyd at yr etholiad nesaf yn 2022 i gychwyn ond y bydd yn gallu gwasanaethu am un tymor pellach dilynol;
- Diolch i'r Cynghorydd T LI Hughes MBE am ei waith fel cynrychiolydd o'r Cyngor Sir ar y Pwyllgor Safonau;
- Cadarnhau bod y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn cael yr awdurdod i gynnwys cyfeiriad at Banel Dethol y Pwyllgor Safonau yng Nghyfansoddiad y Cyngor, er mwyn osgoi'r angen am "ddarpariaeth wrth gefn" yn yr adroddiad ar y strwythur pwyllgorau sy'n cael ei gadarnhau gan y Cyngor yn ei gyfarfod blynyddol.

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 15 Gorffennaf, 2019.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.40 pm

**CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS
CADEIRYDD**

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2019

PRESENNOL: Y Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, John Griffith,
Richard Griffiths, K P Hughes, T LI Hughes MBE,
Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones,
Eric Wyn Jones, Richard Owain Jones, G O Jones, R
Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen,
R G Parry OBE FRAGS, Shaun James Redmond, Dylan Rees,
Alun Roberts, Dafydd Roberts, J A Roberts, Nicola Roberts,
P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a
Robin Williams

WRTH LAW: Y Prif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151,
Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol,
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,
Pennaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid,
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,
Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),
Swyddog Pwyllgor (MEH).

**HEFYD YN
BRESENNOL:** Neb

YMDDIHEURIAD: Y Cynghorydd R LI Jones

Roedd y Cadeirydd yn dymuno cydymdeimlo â theulu Mr George Alun Williams a fu farw yn ddiweddar. Cynrychiolodd Mr Williams wardiau Trearddur a Rhoscolyn fel aelod etholedig ar yr hen Gyngor Sir Ynys Môn ac wedi hynny ar Gyngor Sir Gwynedd ac ar Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn. Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn teyrnged dawel fel arwydd o'u parch a'u cydymdeimlad.

Roedd y Cadeirydd yn dymuno croesawu Mrs Annwen Morgan i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyngor Sir fel y Prif Weithredwr.

1. **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL (CYNLLUN GWELLA) 2018/19

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ar 16 Medi, 2019.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol ar Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2018/19, sef dogfen statudol sy'n dadansoddi perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwelliannau a'r blaenoriaethau a amlinellwyd gan y Cyngor yn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol a Chynllun y Cyngor; mae'n ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu a chyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol erbyn 31 Hydref bob blwyddyn.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ei fod yn falch o allu adrodd, ar sail y perfformiad yn erbyn dangosyddion cenedlaethol, a elwir yn Fesurau Atebolrwydd Perfformiad (MAP), fod safle'r Cyngor trwy'r wlad wedi gwella unwaith eto yn 2018/19. Er y bu rhai siomedigaethau yn 2018/19 gydag atal datblygu gorsaf Wylfa Newydd a'r llithriad ar y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn ardaloedd Llangefni a Seiriol, bu nifer o lwyddiannau nodedig hefyd gan gynnwys cwblhau Ffordd Gyswllt Llangefni, adfywio Neuadd y Farchnad yng Nghaerdybi sydd bellach yn gartref i'r llyfrgell leol, cwblhau ac agor yr Ysgol Santes Dwynwen newydd yn Niwbwrch ynghyd â chwblhau a phrydlesu 7 uned fusnes newydd yn Llangefni gydag 6 uned arall yng Nghaerdybi yn cael caniatâd cynllunio a'r gwaith adeiladu yn cychwyn yn 2019/20 ac agor cae 3G yn Llangefni. Llwyddodd y Gwasanaeth Tai i ddod â 70 o dai gwag yn ôl i ddefnydd ledled yr Ynys. Bydd Cartrefi Clyd yn agor yn fuan i roi amgylchedd cartref diogel i bobl ifanc heb orfod eu lleoli y tu allan i'r sir. Mae'r cyfleuster yn Hafan Cefni yn llwyddiant ysgubol gyda'r holl unedau'n llawn. Dywedodd ymhellach fod y ffigyrau ailgylchu yn parhau i wella gyda chyfraddau canrannol y Cyngor hwn bellach dros 70%. 'Roedd yr Aelod Portffolio yn dymuno diolch i staff y Cyngor am eu gwaith caled.

Cododd rhai Aelodau nifer o faterion a oedd wedi eu cynnwys yn adroddiad perfformiad y Cyngor.

PENDERFYNWYD y dylid cyhoeddi fersiwn derfynol Adroddiad Perfformiad 2018/19 erbyn y dyddiad statudol ar ddiwedd mis Hydref.

3. ADOLYGIAD O'R TREFNIADAU ETHOLIADOL AR GYFER CYNGOR SIR YNYS MÔN GAN Y COMISIWN DEMOCRATIETH LEOL A FFINIAU AR GYFER CYMRU.

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 25 Medi, 2019.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn yr argymhelliad a gynigiwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fel ymateb cychwynol y Cyngor.

4. Y CYNLLUN DIRPRWYO – DATBLYGIADAU MAWR

Cyflwynwyd - Penderfyniad Gweithredol a wnaed gan Arweinydd y Cyngor mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd fod nifer o gyfundrefnau cydsynio ar waith sy'n caniatáu i Weinidog Cymru benderfynu ar geisiadau a fydd yn caniatáu datblygiadau sydd wedi'u lleoli yn ardal weinyddol Ynys Môn neu sy'n effeithio arni. Mae'r rhain yn cynnwys prosesau fel penderfyniadau ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol sy'n rhoi caniatâd cynllunio a Gorchmynion Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd sy'n cynnwys caniatâd cynllunio tybiedig. Dywedodd ymhellach fod Morlais Marine Energy wedi cyflwyno ei gais am ganiatâd ers 17 Medi, 2019. Mae'n ofynnol bod y Cynllun Dirprwyo ar gyfer Datblygiadau Mawr yn ei le er mwyn caniatáu i'r Awdurdod ymateb yn effeithiol ac o fewn yr amserlen.

PENDERFYNWYD:-

- **Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol ymgymryd â holl swyddogaethau statudol y Cyngor fel Awdurdod Lleol ac Awdurdod Cynllunio mewn perthynas â cheisiadau am ganiatâd, gan gynnwys caniatâd cynllunio neu ganiatâd cynllunio tybiedig, neu gyfystyr, fydd yn cael eu penderfynu gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys trafod a chwblhau cytundebau rhwymedigaethau cynllunio.**
- **Caniatáu i swyddogion sydd yn derbyn yr awdurdod dirprwyedig a argymhellir uchod, ddirprwyo awdurdod ymhellach, ynghyd ag unrhyw gamau i'w cymryd dan yr awdurdod hwnnw, i unrhyw swyddog o'r Cyngor.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.40 pm

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS
CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod arbennig a gafwyd ar 22 Hydref, 2019

- YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)
- Y Cynghorydd R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, Richard Owain Jones, G O Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Bob Parry OBE FRAGS, Dylan Rees, Dafydd Roberts, J A Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams and Robin Williams.
- WRTH LAW:** Prif Weithredwr,
Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol)/Trawsnewid,
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,
Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),
Swyddog Pwyllgor (MEH).
- HEFYD YN BRESENNOL:** Dim
- YMDDIHEURIADAU:** Y Cyngorwyr Lewis Davies, T LI Hughes MBE, A M Jones, R LI Jones, Bryan Owen, Alun Roberts and Nicola Roberts.

1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni wnaed unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-

“O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, i gau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y cai gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.”

3. PENODIADAU STAFF – PENODI DIRPRWY BRIF WEITHREDWR

Rhodddwyd ystyriaeth i argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref, 2019 ynglyn â phenodi Dirprwy Brif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn.

PENDERFYNWYD cadarnhau argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref, 2019 bod Mr Dylan Williams yn cael ei benodi yn Ddirprwy Brif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn.

**Y CYNGHORYDD MARGARET MURLEY ROBERTS
CADEIRYDD**

CYNGOR SIR YNYS MÔN

ADRODDIAD I:	PWYLLGOR GWAITH A'R CYNGOR SIR
DYDDIAD:	29 TACHWEDD 2019 a 10 RHAGFYR 2019
PWNC:	CYFANSODDIAD Y CYNGOR – PROSES GOSOD Y GYLLIDEB
AELOD(AU) PORTFFOLIO:	CYNGHORYDD LLINOS MEDI HUWS
PENNAETH GWASANAETH:	MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU)
AWDUR YR ADRODDIAD:	MARC JONES
FFÔN:	01248 752601
E-BOST:	rmjfi@ynysmon.gov.uk
AELODAU LLEOL:	Amherthnasol

A - Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau

Am nifer o resymau, yn bennaf yr etholiad cyffredinol ar 12 Rhagfyr 2019, bydd y setliad dros dro a therfynol i Lywodraeth Leol am 2020/21 yn cael ei gyhoeddi'n llawer iawn hwyrach eleni na'r amserlen arferol. Ni fydd y setliad dros dro'n cael ei gyhoeddi tan 16 Rhagfyr 2019 ac ni fydd y setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi gan 25 Chwefror 2020.

Oherwydd yr oedi gyda chyhoeddi'r setliad, bu'n rhaid i'r Swyddogion addasu'r amserlen ar gyfer gosod y gyllideb ac, ar yr un pryd, gydymffurfio gyda'r gofynion yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r amserlen arfaethedig ac yn nodi a yw'n cydymffurfio â Chyfansoddiad y Cyngor ai peidio.

Y Cam yn y Broses o Osod y Gyllideb	Dyddiad Arfaethedig	Gofynion y Cyfansoddiad	A yw'r Cynnig yn cydymffurfio gyda'r Cyfansoddiad
Y Pwyllgor Gwaith yn cyhoeddi Datganiad Rhag-gyllidebol	Cwblhawyd 16 Medi 2019	Para 4.3.2.2.1 – Cyn 30 Medi mewn unrhyw flwyddyn, bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyhoeddi Datganiad Rhag-gyllidebol.	Ydi
Y Pwyllgor Sgrwtini i ystyried y Cynigion Cychwynnol ar gyfer y Gyllideb	13 Ionawr 2020 (a.m.)	Para 4.3.2.2.4 – Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymryd i ystyriaeth sylwadau a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol cyn llunio ei Gynigion Cychwynnol mewn perthynas â'r Gyllideb.	Ydi
Y Pwyllgor Gwaith i gyhoeddi ei Gynigion Cychwynnol mewn perthynas â'r Gyllideb	13 Ionawr 2020 (p.m.)	Para 4.3.2.2.5 – Cynigion Cychwynnol mewn perthynas â'r Gyllideb i gael eu cyhoeddi cyn 15 Ionawr.	Ydi
Y Cynigion Cychwynnol mewn perthynas â'r Gyllideb i gael eu hystyried gan y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol	26 neu 27 Chwefror 2020 (dyddiad i'w gadarnhau)	Para 4.3.2.2.8 – O leiaf bythefnos cyn y dyddiad y bydd y gyllideb flynyddol yn cael ei mabwysiadu gan y Cyngor, bydd y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol yn ystyried y Cynigion Cychwynnol mewn perthynas â'r Gyllideb.	Nac Ydi
Y Cynigion Terfynol mewn perthynas â'r Gyllideb i gael eu cyhoeddi gan y Pwyllgor Gwaith	2 Mawrth 2020	Para 4.3.2.2.9 – O leiaf wythnos cyn y dyddiad y bydd y gyllideb flynyddol yn cael ei mabwysiadu gan y Cyngor, bydd y Pwyllgor Gwaith, wedi ystyried ymatebion y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol a chanlyniadau unrhyw ymgynghori, yn cyhoeddi ei Gynigion Terfynol ar gyfer y Gyllideb.	Ydi

Y Cam yn y Broses o Osod y Gyllideb	Dyddiad Arfaethedig	Gofynion y Cyfansoddiad	A yw'r Cynnig yn cydymffurfio gyda'r Cyfansoddiad
Y Cyngor yn mabwysiadu'r Gyllideb Derfynol	10 Mawrth 2020	Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn datgan y dylai swm y Dreth Gyngor gael ei bennu cyn 11 Mawrth yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y mae'n cael ei gosod ar ei chyfer.	Ydi – mae'n cydymffurfio â'r gofyniad statudol.

Bydd y Cyngor yn gosod y gyllideb flynyddol a'r Dreth Gyngor ar gyfer 2020/21 yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2020. Nid yw'r dyddiad ar gyfer gosod y gyllideb flynyddol a'r Dreth Gyngor yn cael ei bennu yng Nghyfansoddiad y Cyngor ond dywed Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (paragraff 30 (6)) bod raid i'r Dreth Gyngor gael ei gosod cyn 11 Mawrth yn y flwyddyn ariannol cyn yr un y mae'n cael ei gosod ar ei chyfer.

O'r tabl uchod, gellir gweld bod yr amserlen arfaethedig yn cydymffurfio gyda Chyfansoddiad y Cyngor ac eithrio ar gyfer un eitem, h.y. nid yw'r dyddiad y bwriedir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried Cynigion Cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y Gyllid o leiaf pythefnos cyn dyddiad gosod y gyllideb flynyddol.

Er mwyn cydymffurfio gyda Chyfansoddiad y Cyngor, gallai cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gael ei gynnal ar neu cyn 24 Chwefror 2020 ond mae hyn o leiaf un diwrnod cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r setliad terfynol i Lywodraeth Leol ac, o'r herwydd, byddai'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ystyried y gyllideb heb wybod beth fyddai'r setliad ariannol terfynol ar gyfer y Cyngor. Byddai'r wybodaeth hon yn allweddol ar gyfer gosod y gyllideb flynyddol a byddai'n anodd i'r Pwyllgor Sgriwtini graffu'r cynigion cyllidebol mewn modd ystyrlon hebddi.

Argymhelliad

Gofynnir i'r Cyngor atal paragraff 4.3.2.2.8 o Gyfansoddiad y Cyngor ar gyfer proses gosod cyllideb 2020/21 a chaniatáu i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried Cynigion Cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y Gyllideb lai na pythefnos cyn y dyddiad y bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r gyllideb flynyddol, sef 10 Mawrth 2020.

B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Cydymffurfio gyda'r Cyfansoddiad fel y mae wedi ei ddrafftio a chynnal y cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o leiaf pythefnos cyn dyddiad gosod y gyllideb flynyddol. Gwrthodwyd yr opsiwn hwn oherwydd byddai'n rhaid cynnal y cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini cyn i'r setliad terfynol ar gyfer llywodraeth leol gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar 25 Chwefror 2020. Byddai hyn yn tanseilio'r cyfraniad gwerthfawr sydd gan Sgriwtini i'w gynnig i'r broses o osod y gyllideb.

Cynnal cyfarfod o fewn y pythefnos cyn gosod y gyllideb. Ni fyddai hynny'n cydymffurfio gyda'r Cyfansoddiad a gallai arwain at her mewn perthynas â'r gyllideb flynyddol ac/neu'r dreth gyngor.

C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Dywed Paragraff 2.15.2.1 y Cyfansoddiad: "Ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig". Oherwydd yr angen i roi sylw brys i'r mater hwn, gofynnir i'r Arweinydd ddefnyddio'r awdurdod sydd wedi'i ddirprwyo iddi er mwyn gwneud yr argymhelliad hwn i'r Cyngor llawn.

CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol

DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Mae'r mater wedi cael ei drafod yn llawn gyda'r Prif Weithredwr a'r UDA ac maent wedi cytuno i'r cynnig.
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Awdur yr adroddiad.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Paratowyd yr adroddiad ar ôl derbyn cyngor gan y Swyddog Monitro ac mae'r adroddiad wedi cael ei gytuno gyda'r Swyddog Monitro.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Caffael	Amherthnasol
8	Sgriwtini	Amherthnasol
9	Aelodau Lleol	Ymgynghorwyd gyda'r Pwyllgor Gwaith llawn ac mae'r Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid a'r Aelod Portffolio ar gyfer Busnes y Cyngor yn benodol wedi bod yn rhan o'r broses.
E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrthdodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	Gallai gosod y Dreth Gyngor yn groes i gyfansoddiad y Cyngor ei hun arwain at her nad yw'r gyllideb flynyddol a'r dreth gyngor wedi cael eu gosod yn gyfreithlon. Drwy gymeradwyo'r argymhelliad, gwneir i ffwrdd â'r risg honno.
F - Atodiadau:		
FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		

This page is intentionally left blank